# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

## PENNOD 2

MANNAU NAD YDYNT AT DDIBENION GWAREDU

### 57 Dyletswyddau i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel

(1) Pan fo rhan o safle tirlenwi awdurdodedig wedi ei dynodi'n fan nad yw at ddibenion gwaredu, rhaid i weithredwr y safle gadw cofnodion sy'n ymwneud â deunydd a ddodir yn y man.

(2) Rhaid i'r cofnodion fod yn ddigonol i alluogi ACC i benderfynu pa un a yw'r gweithredwr yn cydymffurfio ag adran 56 mewn perthynas â'r deunydd, neu a yw wedi cydymffurfio â'r adran honno.

(3) Caiff ACC bennu—

(a) ar ba ffurf y mae'n rhaid cadw'r cofnodion, a

(b) yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ynddynt.

(4) Rhaid i'r gweithredwr storio'r cofnodion yn ddiogel hyd ddiwedd y cyfnod o 6 blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff y deunydd ei symud o'r man nad yw at ddibenion gwaredu, neu'r dyddiad y mae'n peidio â bod yn ddeunydd o ddisgrifiad y mae'n rhaid ei ddodi yn y man, pa un bynnag sydd gynharaf.

(5) Ond gall cytundeb a roddir o dan adran 56(4)(a) mewn perthynas â deunydd ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr storio'r cofnodion sy'n ymwneud â'r deunydd yn ddiogel am gyfnod o 6 blynedd sy'n dechrau â dyddiad gwahanol (boed gynharach neu ddiweddarach) i'r un a bennir yn is-adran (4).

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/01/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 57. (See end of Document for details)*

(6) Gweler Pennod 2 o Ran 3 o DCRhT am ddyletswyddau eraill i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel sy'n gymwys pan gaiff gwarediad trethadwy ei drin fel pe bai wedi ei wneud yn rhinwedd adran 8(3)(g).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 57 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 57(3) mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(q)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/01/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 57.